

ALMER (neu ALMOR), teulu Almer a Pant Iocyn, sir Ddinbych

Yr oedd y teulu yn disgyn yn llinell ddidor o lthel Eunydd, ail goncwerwr gwlad Dinbych y sydd i'r dwyrain o'r Clawdd (sef Clawdd Offa). Mabwysiadwyd y cyfenw'n gyntaf gan JOHN ALMER, gŵr a ddaliai swydd heb fod yn bwysig yn llys Harri VIII ac a drefnodd i'w feibion John a William gael eu dewis yn rhingylliaid-ag-arfau. Rhwng 1554 a 1558 chwalwyd Almer i'r llawr a chluwyd ei feini a'u defnyddio i adeiladu Pant Iocyn heb fod ymhell i ffwrdd. Daeth y teulu'n bwysig yng ngwleidyddiaeth swydd Ddinbych ar ôl pasio Deddfau'r Uno.

Bu EDWARD ALMER, ŵr y John Almer cyntaf, yn siryf yn 1554, ac fe'i hetholwyd yn farchog y sir yn 1555; Edward Almer arall, y mae'n debyg, oedd siryf 1571. Dilynodd WILLIAM ALMER ei dad yn y Senedd yn 1572. Bu teyrngarwch crefyddol y teulu yn ansicr hyd cyn belled â 1574. Yn wleidyddol yr oedd ei aelodau, fel rheol, yn ochri gyda Llewenni yn y gorllewin ac Emral yn y dwyrain o blaid y drefn sefydledig ac yn erbyn rhai o'u cymydogion anfoddog a gwrthbleidiol. Yn etholiad 1588 gorchfygwyd William Almer (a gafodd gymorth teulu Llewenni) gan [John Edwards](#) o'r Waun, a gâi gymorth papistiaid y Waun, a chymorth teulu Emral, am resymau teuluol; heriodd Almer gywirdeb yr etholiad trwy gychwyn cyngaws yn Llys Ystafell y Seren a chyhuddo plaid Edwards o lwgrwobrwyath. Aeth yr ystad o ddwylo'r teulu o ddiffyg aer i WILLIAM ALMER, mab y William Almer uchod; gwerthwyd hi yn 1613 ac yn raddol fe'i llyncwyd nes iddi ddod yn rhan o ystadau eraill yn y gymdogaeth.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

J. Y. W. Lloyd, *History of the Princes, the Lords Marcher, and the Ancient Nobility of Powys Fadog*, iii, 216-9

A. N. Palmer, *History of the thirteen country townships of the old parish of Wrexham, and of the townships of Burras Riffri, Erlas, & Erddig Being the fifth and last part of "A history of the town and parish of Wrexham"* (1903), 174-7

Letters and Papers, Foreign and Domestic, of the Reign of Henry VIII, iv

John Williams, *The Records of Denbigh and its Lordship bearing upon the general history of the county of Denbigh since the conquest of Wales; illustrated with many gems of Welsh mediæval poetry never before published* (1770), 79-84

Archaeologia Cambrensis, III, xv, 12-17

The English historical review, lix, 350, 352, 355-6

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20732619](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

